

Eitem: 04

Teitl: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025/2026

Gweithredu / Action required	Ar gyfer ystyried a chymeradwyo
Amseru / Timing	Adroddiad blynyddol
Argymhelliad / Recommendation	Gofynnir i'r Bwrdd ystyried a chymeradwyo'r drafft o Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2025/2026, yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystod cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor ar 23 Medi 2026.
Risg / Risk	Mae risg bosibl i enw da Llais os na fydd yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol a'i ofynion i gyhoeddi adroddiad blynyddol a chyfrifon archwiliedig o fewn yr amserlenni gofynnol.
Cyllid / Finance	Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â chymeradwyo'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn cynnwys gwybodaeth ariannol fanwl am Llais.
Amcan cynllun blynyddol / Annual plan objective Amcan cynllun strategol/ Strategic plan objective	Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â threfniadau llywodraethu ariannol a chorfforaethol Llais. Mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn benodol ag amcan 5 – sef tyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb. Mae trefniadau llywodraethu ariannol a chorfforaethol da yn ffactorau galluogi pwysig ar gyfer gweithrediad llwyddiannus a chyflawniad pob agwedd ar waith Llais ac, felly'n cyflawni'r holl brif amcanion.
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Nid yw'r adroddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol yn y maes hwn. Fodd bynnag, bydd agweddau allweddol ar y meysydd hyn yn cael sylw yng nghynnwys yr Adroddiad Blynyddol.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒

	Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒ Allanol: enw da ein sefydliad ☒
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Prif Weithredwr
Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions	Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi chwarae rhan hollbwysig yn y broses o ddatblygu a chymeradwyo adroddiad blynyddol a chyfrifon Llais ar gyfer 2025/2026. Mae'r Pwyllgor wedi cefnogi'r amserlen ar gyfer llunio'r dogfennau a'r prosesau datblygu drwy roi sylwadau a chynghor ar y drafftiau o'r dogfennau.
Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting	Richard Bevan, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd
Dyddiad / Date	7 Hydref 2026
Cefndir / Background and Manylion / Detail	
Fel Corff Hyd Braich Llywodraeth Cymru (ALIB), mae'n ofynnol i Llais gyhoeddi Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol. Mae Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2025/26 yn ceisio adlewyrchu holl weithgareddau, perfformiad, sefyllfa ariannol a threfniadau llywodraethu Llais, fel sefydliad sefydledig, gan dynnu sylw at ei waith drwy gydol ei drydedd flwyddyn weithredol lawn. Cefnogodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg amserlen arfaethedig ar gyfer llunio a chymeradwyo. Yn ogystal, mae aelodau'r Pwyllgor wedi cyflwyno sylwadau ar fersiynau drafft o'r dogfennau arfaethedig, sydd wedi helpu i gwblhau'r dogfennau yn derfynol, yn barod ar gyfer y broses archwilio gan Archwilio Cymru a'r gymeradwyaeth derfynol. Ar ôl cwblhau'r drafft cychwynnol o'r dogfennau, cyflwynwyd y rhain i Archwilio Cymru ym mis Gorffennaf, yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni, er mwyn dechrau'r broses archwilio. Cyflwynwyd fersiynau drafft o'r dogfennau hefyd erbyn 31 Awst 2026, fel sy'n ofynnol, i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac i Dîm Partneriaeth Llais yn Llywodraeth Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 23 Medi i ystyried y ddogfen ddrafft derfynol ac i dderbyn Adroddiad Archwilio Cyfrifon Archwilio Cymru. Ystyriodd y	

Pwyllgor yr adroddiad a'r ddogfen ddrafft a chytunodd i argymhell bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r dogfennau.

Hoffem ddiolch i holl gydweithwyr Archwilio Cymru am eu gwaith archwilio, i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am eu hamser yn cyflwyno sylwadau ar y dogfennau, ac i staff Llais, yn enwedig y cydweithwyr ym meysydd cyllid, llywodraethu a chyfathrebu, am eu gwaith yn dylunio a chwblhau'r dogfennau, ond diolch hefyd i'r holl staff sydd wedi cyfrannu at gwblhau'r dogfennau, ac am eu gwaith ar ran pobl Cymru, sy'n amlwg drwy gydol yr adroddiad.

Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad hwn a chymeradwyo'r drafft terfynol o'r Adroddiad Blyneddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2025/2026 yn Atodiad 1, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Bydd cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno'r argymhelliad terfynol i'r Bwrdd.